# Adroddiad i'r Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 15 Medi 2026 |
| **Aelod Cabinet :** | Y Cynghorydd Dewi Jones |
| **Swyddog Cyswllt** : | Debbie Anne Jones |
| **Teitl yr eitem** : | Mabwysiadu Polisi Cludiant Addysg i'w weithredu o Fedi 2027 ymlaen. |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1 Yn ddarostyngedig i ystyried cynnwys yr Adroddiad a'r Atodiadau ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriadau ac ymgysylltu, gofynnir i'r Cabinet benderfynu ar fabwysiadu Polisi Cludiant Addysg newydd a fydd yn dod i rym ar 1 Medi 2027.

1.2 Dirprwyo hawl awdurdod i'r Aelod Cabinet dros Addysg, mewn ymgynghoriad â Phennaeth yr Adran Addysg, i gadw'r Polisi dan adolygiad o fewn y fframwaith statudol cenedlaethol a gwneud newidiadau gweithredol a golygyddol yn ôl yr angen yn ddarostyngedig fod unrhyw fater sydd yn ddarostyngedig i ofyn ymgynghori i'w gyfeirio i'r Cabinet.

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio penderfyniad y Cabinet ynghylch mabwysiadu'r Polisi Cludiant Addysg diwygiedig. Bydd y penderfyniad a geisir yn seiliedig ar gynnwys yr adroddiad hwn sydd yn crynhoi'r holl broses ymgynghori a wnaethpwyd yn ddiweddar, yn dilyn caniatâd y Cabinet i ymgynghori'n gyhoeddus ar y Polisi drafft.

2.2 Mae'n amserol adolygu'r polisi oherwydd yr angen i sicrhau ein bod yn cyfarch gofynion a chanllawiau statudol cyfredol. Yr angen i ymgynghori o leiaf 12 mis cyn cyflwyno newid i ran neu gyfan o'r elfennau dewisol o'r Polisi yn eu cyfanrwydd, a sicrhau eglurder ar yr elfennau dewisol er tegwch i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae anghysondeb yng nghynnwys y Polisi ar draws yr holl feysydd, ac mae'n anghyson hefyd o ystyried polisïau cludiant rhai siroedd eraill. Rydym angen sicrhau bod y Polisi'n addas i bwrpas o ran rhesymoldeb gweithredu oddi fewn i'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r Polisi wedi dyddio sy'n golygu nad oes modd gweithredu elfennau ohono mwyach yn sgil gofynion a chanllawiau statudol.

## 3. CYFLWYNIAD

3.1 Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (y Mesur) yn nodi'r fframwaith cyfreithiol sy'n benodol berthnasol i ddarpariaethau teithio a thrafnidiaeth ar gyfer dysgwyr sy'n teithio o'r cartref i'r ysgol yng Nghymru; gyda 'Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol'(Y Canllawiau) a gyhoeddwyd yn 2014.

3.2 Mae'r Mesur yn nodi bod rhaid i awdurdodau lleol:

- Asesu anghenion teithio dysgwyr yn ardal ei hawdurdod;
- Darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr o oedran ysgol orfodol sy'n mynychu ysgol gynradd sy'n byw dwy filltir o'r ysgol addas agosaf;
- Darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i ddysgwyr o oedran ysgol sy'n mynychu ysgol uwchradd sy'n byw tair milltir o'r ysgol addas agosaf;
- Asesu a diwallu anghenion plant 'sy'n derbyn gofal' yn ardal eu hawdurdod;
- Hyrwyddo mynediad i addysg Gymraeg ac ysgolion ffydd;
- Hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy.

3.3 Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn unol â gofynion y Mesur. Ar yr un pryd, o fewn y Mesur, gall yr Awdurdod Lleol wneud trefniadau dewisol o dan ran 6 y Mesur, ac ar sail dewis a disgresiwn yr Awdurdod.

3.4 Yn unol â'r Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009, mae gofyn i Awdurdodau Lleol gyhoeddi gwybodaeth am eu polisïau i ddarparu cludiant dewisol o fewn eu Polisi Cludiant Addysg, ac os bydd Awdurdod yn gwneud defnydd o bwerau Rhan 6 i ddarparu cludiant dewisol, mae gan yr Awdurdod hefyd yr hawl i ddiddymu'r ddarpariaeth yn ddiweddarach. Er mwyn gwneud hynny, o dan ganllawiau statudol 2014, mae'n ofynnol:

- Cynnal ymgynghoriad cyn dileu neu addasu darpariaeth ddewisol yn ei gyfanrwydd; a
- Cyhoeddi trefniadau erbyn 1 Hydref y flwyddyn flaenorol.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Roedd y prif newidiadau a gynigiwyd i'r Polisi Cludiant Addysg (Drafft) i bwrpas ymgynghori yn ymwneud â darpariaeth cludiant dewisol yr Awdurdod yn y meysydd canlynol:

**Cyswllt**:
01286 679666

cabinet@gwynedd.llyw.cymru

- Cynllun Seddi Gweigion
- Ysgolion Ffydd
- Preswyliad Deuol
- Ôl-16

Cynllun Seddi Gweigion

4.2 Yn y polisi cyfredol, hyd at yn ddiweddar, cynigiwyd sedd wag i ddysgwyr nad oedd ganddynt hawl i gludiant di-dâl os byddai argaeledd sedd ar gludiant gan godi tâl am y sedd honno. Roedd y ddarpariaeth hon yn amodol ar:

- fod seddi gwag ar gael;
- nad oedd angen i'r cerbyd wyro oddi ar ei daith arferol;
- nad oedd costau ychwanegol i Gyngor Gwynedd;
- talu'r ffi berthnasol am sedd wag.

4.3 Nid oedd y cynllun ar gael ar wasanaethau cludiant cyhoeddus, ac nid oedd sicrwydd y byddai sedd wag ar gael drwy gydol y flwyddyn academaidd. Ceisiwyd rhoi o leiaf wythnos o rybudd petai'r trefniant yn gorfod dod i ben.

4.4 Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ymgynghori a chyhoeddi unrhyw newidiadau i'r Polisi Cludiant Addysg cyn 1 Hydref y flwyddyn flaenorol. Oherwydd hyn, bu i'r Adran Addysg wneud penderfyniad gweithredol i rewi'r Cynllun Seddi Gweigion tra bod y Polisi Cludiant Addysg yn cael ei adolygu. Ar y pryd, dealltwriaeth yr Adran oedd na fyddai modd gweithredu'r Cynllun Seddi Gweigion heb ymrwymo i ddarparu sedd wag drwy gydol y flwyddyn academaidd. Byddai hyn wedi bod yn groes i hanfod y Cynllun, sef cynnig seddi gwag pan oeddent ar gael, heb ymrwymiad hirdymor a allai greu costau ychwanegol i'r Cyngor. Ar sail y ddealltwriaeth yma, cynhaliodd yr Adran ymgynghoriad ar y cynnig i ddiddymu'r Cynllun Seddi Gweigion o'r Polisi Cludiant Addysg Drafft.

4.5 Pwrpas ymgynghori oedd casglu barn rhanddeiliaid ac ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, ac os yn berthnasol, addasu cynnwys y polisi i adlewyrchu'r sylwadau hynny. Yn achos y Cynllun Seddi Gweigion, codwyd nifer o bryderon yn ystod yr ymgynghoriad ac wedi hynny gan nifer o ran-ddeiliaid, gan gynnwys y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, ynghylch y posibilrwydd o ddiddymu'r Cynllun yn ei gyfanrwydd o'r Polisi. Mae'r Adran Addysg yn rhannu'r pryderon hyn, ac wedi bod yn ceisio ystyried opsiynau ymarferol fyddai'n galluogi'r Cynllun Seddi Gweigion barhau. Roedd hyn yn cynnwys ceisio eglurder pellach gan Lywodraeth Cymru ar y gofynion statudol i ymgynghori ar elfennau dewisol o ddarpariaeth cludiant addysg, megis y Cynllun Seddi Gweigion.

4.6 Yn ddiweddar iawn, derbyniwyd rhywfaint o eglurder pellach gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chludiant dewisol, ac yn benodol gallu'r awdurdod i weithredu'r

cynlluniau megis y Cynllun Seddi Gweigion. Mae’r eglurder pellach a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhoi rhyw elfen o hyder i’r awdurdod bod modd parhau i gynnig y Cynllun Seddi Gweigion fel rhan o’r Polisi Cludiant Addysg, ac adlewyrchir hynny yn y Polisi sydd gerbron y Cabinet i’w fabwysiadu.

4.7 Er mwyn lliniaru’r risgiau sy’n gysylltiedig â pharhau i weithredu’r Cynllun Seddi Gweigion, rydym wedi diweddaru ac ychwanegu eglurder i’r weithdrefn ar gyfer y Cynllun Seddi Gweigion ac wedi’i gynnwys fel atodiad i’r Polisi Cludiant Addysg. Mae’r weithdrefn yn egluro sut mae’r Cynllun yn gweithredu, ac yn cadarnhau hawl yr Awdurdod i dynnu’r cynnig o sedd wag yn ôl ar unrhyw adeg os nad oes sedd wag ar gael mwyach. Bydd y weithdrefn yn weithredol yn syth gyda’r Polisi presennol, gan mai diweddariad ydyw i’r weithdrefn sydd eisoes yn bodoli.

Ysgolion Ffydd

4.8 Ar hyn o bryd nid oes cyfeiriad at ysgolion ffydd yn y Polisi Cludiant Addysg er y darperir cludiant i ddysgwyr sy’n dewis mynychu’r ysgolion ffydd ar hyn o bryd yn unol â’r gofyn statudol. Mae gan Wynedd ddwy ysgol ffydd (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir), a’r ysgolion eu hunain yw’r awdurdodau mynediad yn hytrach na’r Cyngor.

4.9 Mae gofyn i’r awdurdod hyrwyddo mynediad i ysgolion ffydd, felly mae cludiant i ysgolion ffydd fel cynnig wedi ei ychwanegu i’r Polisi Cludiant Addysg Drafft. Mae’r cynnig yn nodi’r bwriad i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr yn unol â’r gofyn statudol, ac i ddysgwyr sy’n byw ddim mwy na phum milltir o’r ysgol (ffydd) addas agosaf, gan adlewyrchu’r ffaith fod ysgol ffydd yn gwasanaethu ardal ehangach na dalgylch arferol ysgol, gan gynnig eglurder o fewn y polisi ar yr hawl i gludiant.

Preswyliad Deuol

4.10 Pan fydd rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am blentyn a bod y plentyn yn preswylio mewn dau gartref, sef cartrefi’r ddau riant ar wahân, bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant o’r prif gyfeiriad, sef y cyfeiriad y mae’r dysgwr yn ymgartrefu gan amlaf, gydag o leiaf un o’r preswylfeydd hynny yng Ngwynedd. Mae hyn ar yr amod mai’r ysgol a fynychir yw'r ysgol ddalgylch / addas agosaf ar gyfer un o’r ddau breswylfa.

4.11 Mae’r Polisi Cludiant Addysg Drafft yn cynnig rhagor o eglurder, sef y darperir cludiant yn unol â’r gofyn statudol, ond na ddarperir cludiant o unrhyw un o’r ddwy breswylfa os yw’n fwy na 5 milltir o’r ysgol ddalgylch / addas agosaf ar gyfer un o’r ddwy breswylfa.

Cludiant Ôl-16

4.12 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn darparu cludiant dewisol i ddysgwyr ôl-16 llawn amser i'r sefydliadau addysgol canlynol:

- Ysgolion uwchradd sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 a 13.
- Ysgolion arbennig sy'n darparu ar gyfer Blynyddoedd 12 a 13 a 14
- Grŵp Llandrillo Menai - safleoedd Dolgellau, Pwllheli, Glynllifon, Safle Menai Parc Menai - Bangor, Llangefni a Chaernarfon.

4.13 Mae'r Polisi Cludiant Addysg Drafft yn cynnig bod yr Awdurdod yn darparu cludiant dewisol y tu hwnt i oedran ysgol statudol lle mae dysgwyr cymwys sy'n byw yng Ngwynedd yn byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol ddalgylch/addas agosaf neu'r safle coleg ôl-16 addas agosaf sy'n darparu'r cwrs.

4.14 Mae'r cynnig i ddarparu cludiant ôl-16 i'r ysgol ddalgylch/addas agosaf, ynghyd ag i'r safle coleg addas agosaf sy'n darparu'r cwrs yn:

- gyson gyda gweddill y Polisi Cludiant Addysg ar gyfer dysgwyr oedran addysg statudol;
- golygu bod y ddarpariaeth cludiant yn cefnogi darpariaeth ôl-16 ar draws y sir, ac yn cyfrannu at sicrhau hyfywedd y darpariaethau ledled y sir, yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd wrth gludo dysgwyr i'r safleoedd agosaf sy'n darparu'r cwrs;
- golygu na fydd myfyrwyr Prifysgol Bangor yn gymwys am gludiant ôl-16 gan fod y cynnig yn ymwneud â chludiant i ysgolion uwchradd neu safleoedd Grŵp Llandrillo Menai yn unig;
- golygu cyfyngder oedran o fod yn iau nag 19 oed ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd y dilynwyd y cwrs. Mae hyn yn gyson gyda pholisi cludiant siroedd eraill.

4.15 Nodir fod gan ddysgwyr yr hawl i ddewis unrhyw leoliad ar gyfer eu haddysg ôl-16, ond os na fydd dysgwr yn dewis yr ysgol ddalgylch/addas agosaf neu'r safle coleg addas agosaf sy'n darparu'r cwrs yna byddent yn colli eu hawl i gludiant am ddim, yn yr un modd â'r Polisi Cludiant Addysg ar gyfer dysgwyr oedran addysg statudol. Golyga hyn, y codir ffi o £1 y daith ar gyfer dysgwyr sydd yn dewis teithio i ysgol all-dalgylch neu safle coleg nad yw'r safle agosaf sy'n darparu'r cwrs.

4.16 <u>Eglurder Pellach</u>

4.17 Ceir yna hefyd feysydd eraill o fewn y Polisi Cludiant Addysg ble rydym wedi ychwanegu manylder ac eglurder i'r Polisi, ond nid yw'r ychwanegiadau hynny'n arwain at unrhyw newid i'r ymrwymiad i ddarparu cludiant yn unol â'r Polisi Cludiant presennol. Mae'r meysydd hynny'n cynnwys:

- Mesur Pellter Teithio
- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chyflyrau Meddygol
- Plant sy'n derbyn gofal

- Ad-drefnu Ysgolion
- Disgwyliadau ar rieni/gwarchodwyr - Taliadau cludiant

**5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

5.1 Cyflwynwyd adroddiad i Gabinet ar 20 Ionawr 2026 yn gofyn caniatâd i gynnal ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg drafft. Yn dilyn derbyn caniatâd y Cabinet, cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o 6 wythnos rhwng 9 Chwefror a 20 Mawrth 2026.

5.2 Cyhoeddwyd pecyn ymgynghori ar-lein ynghyd â ffurflen ymateb pwrpasol, a derbyniwyd cyfanswm o 31 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad drwy gyfrwng y dull hwn. Ceir copi o'r ffurflen ymateb yn Atodiad 5. (Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys adborth gan ddysgwyr yn ystod y sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd).

5.3 Mae'r Adroddiad Ymgynghori (Atodiad 6) yn cynnwys crynodeb llawn o'r holl faterion a godwyd gan yr ymgynghorai drwy'r ffurflen ymateb ar-lein, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r materion rheiny. Rhestrir isod y prif themâu a godwyd gan yr ymgynghorai, ac mae ystyriaeth fanylach i bob un o'r materion hyn i'w gweld yn Atodiad 6:

- Cynllun Seddi Gweigion
- Ysgolion Ffydd
- Preswyliad Deuol
- Darpariaeth ôl-16
- ADY a Theithio Annibynnol
- Teithio Llesol
- Cyffredinol
- Safonau'r Gymraeg

5.4 Er mwyn sicrhau llais plant a phobl ifanc yn yr ymgynghoriad hwn, cynhaliwyd nifer o sesiynau ymgynghori penodol gydag oddeutu 104 o fyfyrwyr yn y lleoliadau canlynol:

- Grŵp Llandrillo Menai – Safle Coleg Menai, Bangor
- Grŵp Llandrillo Menai – Safle Pencraig, Llangefni
- Grŵp Llandrillo Menai – Safle Meirion-Dwyfor, Dolgellau
- Grŵp Llandrillo Menai – Safle Meirion-Dwyfor, Pwllheli
- Grŵp Llandrillo Menai – Safle Meirion-Dwyfor, Glynllifon

At hyn, cynhaliwyd sesiwn penodol ar gynigion y Polisi Cludiant Addysg Drafft gyda'r Fforwm Sirol Plant a Phobl Ifanc.

5.5 Rhestrir isod y prif themâu a godwyd gan y bobl ifanc yn ystod y sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd, ac mae ystyriaeth fanylach i bob un o’r materion hyn i’w gweld yn yr Adroddiad Ymgynghori yn Atodiad 7:

- Lleoliad y Cwrs
- Costau Cludiant
- Cyfyngder Oedran
- Dysgwyr gydag ADY
- Cludiant Cyhoeddus
- Amserlenni Cludiant
- Cyfrifo Pellter Teithio

5.6 Rhoddwyd ystyriaeth i’r holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y cynigion yn y Polisi Cludiant Addysg Drafft, ac yn sgil y pryderon niferus a fynegwyd am ddiddymu’r Cynllun Seddi Gweigion o’r Polisi, (gweler Atodiad 6 - Thema 1) ceisiwyd eglurder gan Lywodraeth Cymru ar ein gallu i barhau i weithredu’r Cynllun Seddi Gweigion o ystyried y gofynion statudol i ymgynghori ar elfennau dewisol o ddarpariaeth cludiant addysg. Yn sgil yr eglurder a dderbyniwyd, ac mewn ymateb i’r sylwadau a’r pryderon a fynegwyd am ddiddymu’r cynllun yn yr ymgynghoriad, mae’r Cynllun Seddi Gweigion wedi ei ychwanegu’n ôl i’r Polisi Cludiant Addysg er mwyn hwyluso cludiant i rai teuluoedd sydd ddim yn gymwys am gludiant am ddim yn unol â’r meini prawf.

5.7 Derbyniwyd rhai sylwadau o blaid ac yn erbyn y cynnig o gyfrifo cludiant i ysgolion ffydd ar sail pellter (gweler Atodiad 6 – Thema 2), ac er sicrhau na fyddai’r cynnig yn cael effaith arwyddocaol ar y ddwy ysgol ffydd yn benodol, yn dilyn yr ymgynghoriad cynhaliwyd cyfarfod gyda chynrychiolydd o’r Eglwys Gatholig i drafod y cynnig. Yn ystod y drafodaeth, bodlonwyd yr Esgobaeth na fyddai darparu cludiant ar sail pellter yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar hawl dysgwyr presennol Ysgol Ein Harglwyddes ac Ysgol Santes Helen i gludiant. O ganlyniad, nid oes newid i gynnwys y Polisi Cludiant Addysg mewn perthynas ag ysgolion ffydd yn dilyn yr ymgynghoriad.

5.8 Derbyniwyd sylwadau o blaid ac yn erbyn y cynnig ar gyfer cludiant i ddysgwyr sydd â phreswyliad deuol a hynny ar sail yr angen am hyblygrwydd ac i gydnabod cymhlethdod rhai teuluoedd ar y naill law, a thegwch i bawb ar y llaw arall. (Gweler Atodiad 6 – Thema 3). Credir fod y cynnig yn adlewyrchu awydd y Cyngor i hwyluso cludiant i ddysgwyr sy’n rhannu eu hamser rhwng aelwydydd, gan fod y cynnig yn mynd y tu hwnt i’r gofynion statudol i ddarparu cludiant i ddysgwyr cymwys o hyd at 2 filltir ar gyfer ysgolion cynradd a 3 milltir ar gyfer ysgolion uwchradd yn gyffredinol. Ar sail hynny felly nid oes newid i gynnwys y Polisi Cludiant Addysg ar breswyliad deuol yn sgil yr ymgynghoriad.

5.9 Derbyniwyd rhai sylwadau a oedd yn nodi pryderon am y bwriad i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16 i'r lleoliad agosaf sy'n darparu'r cwrs, a nododd nifer o'r ymgynghorai, ynghyd â'r bobl ifanc y bu ymgynghori â hwy (gweler Atodiad 7) y byddai'r cynnig yn debygol o gyfyngu ar ddewisiadau'r dysgwyr. Rhoddwyd ystyriaeth i sylwadau'r holl ymgynghorai, a chadarnheir fod y Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt. Fodd bynnag, wedi pwyso a mesur y sylwadau a dderbyniwyd, barn y Cyngor yw fod y cynnig yn gyson gyda'r meini prawf cludiant ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol ac ar sail hynny, felly, nid oes newid i gynnwys y Polisi Cludiant Addysg ar gyfer dysgwyr ôl-16.

5.10 Rhoddwyd ystyriaeth i'r holl sylwadau eraill a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg hefyd, ac mae rhai o'r sylwadau hynny, yn ogystal â sylwadau'r plant a'r bobl ifanc hefyd wedi derbyn ystyriaeth bellach fel rhan o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb. (Gweler Adran 8 o'r Adroddiad Cabinet).

## 6. SYLWADAU A DDERBYNIWYD GAN RAN-DDEILIAID ERAILL

Sylwadau Penaethiaid Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Gwynedd

6.1 Rhoddwyd cyflwyniad ar gynnwys y Polisi newydd gerbron y Penaethiaid Uwchradd ar 11 Chwefror 2026, a'r Penaethiaid Cynradd ar 25 Chwefror 2026. Amlinellwyd y prif gynigion ar gyfer y Polisi Cludiant Addysg drafft a chodwyd ymwybyddiaeth y penaethiaid o'r holiadur ar-lein, gan eu gwahodd i gwblhau'r holiadur a chyflwyno'u sylwadau i'n sylw.

6.2 Mewn ymateb i'r cynigion ar gyfer y Polisi Cludiant Addysg drafft, bu i'r Penaethiaid nodi'r canlynol:

- Yr angen am sicrwydd ynghylch y math o hyfforddiant a gyflwynir i weithwyr cludiant addysg, ac ansawdd a safon yr hyfforddiant hynny.
- Os byddai cyfnod trosiannol ynghylch y cynllun seddi gweigion a fyddai hynny'n galluogi i ddysgwyr sydd eisoes yn rhan o'r cynllun i allu parhau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd tra bod seddi gweigion ar gael.

Sylwadau Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd

6.3 Rhoddwyd cyflwyniad i Fforwm Llywodraethwyr Gwynedd ar y cynigion ar gyfer y Polisi Cludiant Addysg drafft ar 26 Chwefror 2026, gan amlygu'r prif newidiadau i'r polisi a gan godi ymwybyddiaeth y llywodraethwyr a'r cadeiryddion o'r ymgynghoriad, ac i'w hysbysu o'r holiadur ar-lein gan eu hannog i'w gwblhau a chyflwyno ei sylwadau er ystyriaeth fel rhan o'r ymgynghoriad.

6.4 Mewn ymateb i gynnwys a newidiadau'r Polisi newydd, bu i'r llywodraethwyr nodi'r sylwadau canlynol:

- Petai'r cynnig i ddiddymu'r Cynllun Seddi Gweigion yn cael ei dderbyn, yna cynigiwyd bod y cynllun yn cael ei ddiddymu'n raddol, fel na fyddai'n effeithio'r dysgwyr rheiny sydd eisoes yn manteisio ar y Cynllun yn bresennol.
- Nodwyd pryder am effaith y byddai diddymu'r Cynllun Seddi Gweigion yn ei gael ar y dysgwyr rheiny gan neu bod wedi arfer â threfn gadarn, dyddiol ynghlwm â'r cynllun ers peth amser.
- Gwnaethpwyd sylw ar y broses o adnabod seddi gweigion ar gludiant addysg, a chwestiynwyd pam y ceir seddi gweigion o gwbl ar gludiant addysg.
- Gwnaethpwyd sylw am y drefn taliadau, yr incwm a gynhyrchir yn bresennol a'r drefn weinyddol yn gyffredinol mewn perthynas â'r Cynllun Seddi Gweigion.
- Tynnwyd sylw at yr effaith posib y byddai diddymu'r Cynllun Seddi Gweigion yn ei gael ar rai ysgolion bach, ble mae nifer dysgwyr all-dalgylch o gymorth i hyfywedd yr ysgolion rheiny.

## 7. SYLWADAU'R PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

7.1 Cyflwynwyd eitem gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 18 Mehefin 2026 yn adrodd yn ôl ar yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y Polisi Cludiant Addysg drafft, gan wahodd aelodau'r pwyllgor i graffu ar gynnwys y Polisi a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd.

7.2 Bu i aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi fynegi pryder am y bwriad i ddiddymu'r Cynllun Seddi Gweigion yn barhaol o'r Polisi Cludiant Addysg, gan y byddai hynny'n debygol o gael effaith ar anghenion trigolion Gwynedd, gan gynnwys teuluoedd mewn cymunedau gwledig a theuluoedd sy'n wynebu amddifadedd economaidd. Yn sgil hyn, gofynnodd y Pwyllgor i'r Cabinet roi sylw penodol i'r Cynllun Seddi Gweigion wrth ddod i benderfyniad.

7.3 Bu i aelodau'r Pwyllgor Craffu hefyd nodi y dylid ystyried addasu'r Polisi Cludiant Addysg Drafft i ddynodi plwyfi yn hytrach na phellter o ran cludiant i ysgolion ffydd.

7.4 Yn dilyn y Pwyllgor Craffu bu i'r Adran Addysg gynnal cyfarfod gyda chynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig i drafod cynnwys y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn sgil y cyfarfod hwnnw ble rhoddwyd eglurder pellach ar y bwriad i gynnwys yr hawl i gludiant statudol i ddysgwyr sy'n byw ddim mwy na phum milltir o'r ysgol (ffydd) addas agosaf yn y Polisi, (a bod y cludiant yn seiliedig ar bellter yn hytrach na phlwyfi hanesyddol), roedd cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig yn fodlon nad oedd darparu cludiant ar sail pellter yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar hawl dysgwyr presennol Ysgol Ein Harglwyddes ac Ysgol Santes Helen i gludiant.

7.5 Bu i aelodau'r Pwyllgor Craffu hefyd ofyn i'r Adran Addysg edrych ar leihau'r nifer o ffurflenni sydd angen i rieni disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol eu llenwi.

7.6 Yn sgil cyflwyno'r sylwadau uchod, bu i aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi dderbyn cynnwys yr adroddiad.

**8. ASESIADAU EFFAITH**

8.1 Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Cynhaliwyd asesiad o effaith y cynigion ar gyfer y Polisi Cludiant Addysg drafft ar Gydraddoldeb, Y Gymraeg, a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, ac fe gyhoeddwyd yr Asesiad fel rhan o'r pecyn ymgynghori ar y Polisi Cludiant Addysg drafft. Gellir gweld yr Asesiad llawn yn Atodiad 4. Mae'r Asesiad yn nodi nad yw'r Polisi Cludiant Addysg yn debygol o gael effaith ar nifer o nodweddion cydraddoldeb yn cynnwys hil, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Fodd bynnag, noda'r asesiad y gallai bod effaith cadarnhaol a negyddol o weithredu'r Polisi Cludiant Addysg ar y nodweddion anabledd a chrefydd a chred, tra bod yr asesiad wedi adnabod effeithiau cadarnhaol ar yr iaith Gymraeg, ac effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar feichiogrwydd a mamolaeth, ynghyd ag effeithiau amuniongyrchol cadarnhaol a negyddol ar y nodwedd priodas a phartneriaeth sifil, ac effaith negyddol gan fwyaf ar y nodwedd oedran.

8.2 Ar sail yr uchod, ni ddaeth unrhyw faterion i'r amlwg yn yr Asesiad fyddai wedi arwain at addasu neu ganlyniad amgen o safbwynt y Polisi Cludiant Addysg. Rhagwelir na fyddai gwahaniaethu anghyfreithiol nac effaith arwyddocaol ar unrhyw nodwedd cydraddoldeb o fwrw ymlaen efo'r Polisi Cludiant Addysg fel ag y mae, ac felly byddwn yn gweithredu yn unol â'r gofynion cyfreithiol sydd arnom.

8.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Wrth ddatblyg'r cynigion ar gyfer y Polisi Cludiant Addysg drafft gweithredwyd yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd y gwaith yn adlewyrchu'r 5 ffordd o weithio. Mae hyn wedi ei fanylu yn Atodiad 4 ac fe gyhoeddwyd hyn fel asesiad yn y pecyn ymgynghori ar y Polisi Cludiant Addysg drafft. Mae hyn wedi ei adolygu yn gyson wrth ddatblygu'r penderfyniad a geisir.

**9. SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro**:

Dyma sylwadau'r Swyddog Monitro ar gyfer yr adroddiad:

*"Mae'r gwaith yma wedi derbyn cefnogaeth gyfreithiol wrth fynd drwy'r broses. Mae'r adroddiad yn adrodd yn fanwl ar y broses ymgynghori a'r ymgysylltu ychwanegol sydd wedi cymryd lle. Nodir fod canlyniadau y broses ymgynghori hefyd wedi cyfrannu at gyrraedd yr argymhelliad gydag addasiadau penodol wedi eu hymgorffori o ganlyniad. Mae hyn yn unol ag egwyddorion "Gunning" ar gynnal prosesau ymgynghori. Rwy'n fodlon fod y penderfyniad a geisir yn seiliedig ar broses briodol ac ystyriaethau fyddai yn caniatáu i'r Cabinet fabwysiadu y Polisi."*

**Y Pennaeth Cyllid:**

Dyma sylwadau'r Pennaeth Cyllid ar gyfer yr adroddiad:

*"Nid yw'r newid polisi yn debygol o gael effaith arwyddocaol yn gyllidol, ac rwyf yn cytuno gyda'r angen i'r polisi fod yn gyfredol, eglur ac addas i bwrpas. Rwyf felly yn cefnogi'r penderfyniad a geisir."*

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Polisi Cludiant Addysg |
| Atodiad 2 | Gweithdrefn Canllaw Seddi Gweigion |
| Atodiad 3 | Canllaw Cludiant Ôl-16 |
| Atodiad 4 | Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg ac Economaidd-Gymdeithasol |
| Atodiad 5 | Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad |
| Atodiad 6 | Sylwadau'r Ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant addysg Drafft |
| Atodiad 7 | Sylwadau'r Dysgwyr ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft |